

Rheolau'r Ystafell Ymchwil

Mae'r cofnodion a ddelir gennym yn unigryw a digymar. I'w gwarchod ar gyfer eu defnydd gan genedlaethau'r dyfodol, ac i sicrhau lle gwaith braf i bawb, gofynnwn i chi ddarllen a chadw at y rheolau isod.

1. Cofrestru

Rhaid bod gan holl ddefnyddwyr Archifau Gwent Gerdyn Archifau dilys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://www.archives.org.uk/what-we-do/archives-card.html>

Bydd Tocyn Dydd ond yn cael ei roi ar un achlysur, a chynghorir ymchwilwyr i ddod a phrawf o bwy ydynt ar eu hymweliad nesaf.

2. Cyn mynd i'r Ystafell Ymchwil

Rhaid gadael yr eitemau canlynol yn y cypyrddau sydd ar gael:

- Bagiau, cotiau ac ambaréls
- Pethau miniog megis siswrn, cyllyll poced a phethau gwneud min ar bensel
- Beiros, rhwbiwr a phensiliau gyda rhwbiwr ar y pen
- Bwyd a diod (gan gynnwys gwm cnoi, melysion gwddf, melysion peswch). Mae meddyginiaeth yn iawn; holwch aelod staff i gael cyngor ar hyn

Gofynnwn bod cyn lleied o bethau ag y bo modd yn dod i'r Ystafell Ymchwil ac i ddibenion diogelwch efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld eich nodiadau wrth i chi adael.

Gall yr olew ar eich dwylo achosi niwed ac afliwiad i rai dogfennau, felly defnyddiwch y cyfleusterau yn yr Ystafell Gypyrddau i olchi a sychu eich dwylo cyn dod i mewn os gwelwch yn dda

3. Defnyddio'r Ystafell Ymchwil

I ganiatáu i ymchwilwyr eraill wneud eu gwaith mewn heddych ac i helpu i amddiffyn a gwarchod ein dogfennau:

- Byddwn yn trin pawb sy'n ymweld â'n gwasanaeth gyda chwarteisi a pharch, a gofynnwn i chi drin staff ac ymchwilwyr eraill yn yr un modd
- I osgoi tarfu ar ymchwilwyr eraill, dylid cadw ffonau yn y modd tawel, a dylid cymryd unrhyw alwadau y tu allan. Cadwch lefelau sain yn isel ar glustffonau, gliniaduron a chamerau
- Caniateir tynnu lluniau ddogfennau; diffoddwch y fflach a holwch aelod o staff am reoliadau hawlfraint a phrynu trwydded ffotograffiaeth

- Mae offer ar gael i'ch helpu i ddefnyddio'r archifau yn ddiogel a gofynnwn eich bod yn eu trin yn ofalus a dilyn cyngor staff. Efallai y gofynnir i chi wisgo menig neu ddefnyddio rest llyfrau wrth drin rhai o'r casgliadau
- Byddwch yn ofalus i beidio â phwyso ar unrhyw ddogfen, neu roi papurau neu lyfr nodiadau ar y dogfennau wrth wneud nodiadau, gan y gall hyn achosi niwed
- Cadwch unrhyw ddogfennau yn y drefn wreiddiol y rhoddwyd nhw i chi
- Ni ddylid mynd â dogfennau allan o'r Ystafell Ymchwil. Pan fyddwch wedi gorffen gyda dogfennau, ewch â nhw'n ôl i'r Ddesg Gymorth
- Yr amser archebu olaf ar gyfer dogfennau yw 30 munud cyn amser cau. I roi amser i staff ddychwelyd eitemau i'r manau storio yn ddiogel, dylid rhoi dogfennau yn ôl i'r staff 10 munud cyn amser cau'r ystafell Ymchwil

Rydym eisiau i bawb fwynhau eu profiad yn Archifau Gwent, ac mae'r rheolau uchod yn ein helpu ni i sicrhau awyrgylch braf i bawb, ynghyd â'n helpu i warchod treftadaeth ysgrifenedig Gwent. Rydym y cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un nad yw'n dilyn y rheolau neu gyfarwyddyd y staff.

Dr Lisa Snook, Archifydd y Sir
Ionawr 2022